

Cynorthwydd Personol Gofal Cymdeithasol - Disgrifiad Swydd a Manyleb Personol

Teitl y Swydd: Cynorthwydd Personol Gofal Cymdeithasol

Atebol i: eu Cyflogwr.

Daliwch sylw:

Mae disgrifiad swydd a manyleb personol y swydd wag hon yn rhai generig. Nid yw'n hollgynhwysol ac mae'n adlewyrchu'r math a'r amrywiaeth o dasgau, cyfrifoldebau a chanlyniadau sy'n gysylltiedig â rôl Cynorthwydd Personol, nid y tasgau penodol y bydd angen i chi eu cyflawni.

Disgrifiad Swydd

Diben y swydd

Helpu'r bobl rydych chi'n eu cefnogi i fyw'r bywyd unigol y maent yn ei ddymuno, gan sicrhau fod ganddynt ddewis a rheolaeth dros gynllunio a darparu eu cymorth.

Tasgau, cyfrifoldebau a chanlyniadau allweddol

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o sut y **gallai** fod yn ofynnol i chi gynorthwyo'r bobl rydych chi'n eu cefnogi i gyflawni eu Cynllun Gofal cytunedig (byddwch yn cael gwybod am union ofynion eich cyflogwr cyn ac yn ystod eich cyfweiliad):

- Eu helpu â'u gofal personol. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo pobl i ddefnyddio'r toiled, bwydo a gwisgo amdanant.
- Eu helpu i siopa am y pethau y maent yn dymuno'u prynu, yn cynnwys eu dillad a'u bwyd, a pharatoi eu prydau.
- Eu helpu i wneud eu gwaith tŷ, yn cynnwys glanhau a golchi dillad.
- Eu helpu i ganfod cyfleoedd o ran addysg, cyflogaeth a hamdden, a'u galluogi i gyfranogi yn y cyfleoedd hyn.
- Eu helpu i gyfranogi mewn gweithgareddau cymdeithasol.
- Eu cynorthwyo â'u trefniadau teithio beunyddiol a'u gwyliau yn ôl y galw.

Bydd disgwyl i chi gydweithio'n gefnogol â chydweithwyr, teuluoedd a phartïon allanol, gan feithrin ymddiriedaeth trwy fod yn ddidwyll a gonest.

Yn ychwanegol i'r uchod, disgwylir i Gynorthwydd Cefnogaeth Byw Bywyd wneud y canlynol:

- Bod yn barod i weithio'n hyblyg os bydd angen gwneud hynny. Mae hyn yn cynnwys gweithio ar benwythnosau, gyda'r hwyr ac yn ystod y nos, ar wyliau banc (yn cynnwys y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd) a gwneud gwaith cysgu i mewn pan fo angen hynny.
- Cwblhau unrhyw hyfforddiant gofynnol sy'n briodol i'ch swydd, naill ai trwy e-ddysgu neu trwy fynychu cyrsiau.
- Cynnal cyfrinachedd o ran y wybodaeth am y bobl y byddwch yn eu cefnogi.

Manyleb bersonol

Bydd eich darpar gyflogwr yn marcio eich ffurflen gais ar sail faint o dystiolaeth y byddwch wedi'i rhoi i gadarnhau'r rhinweddau hanfodol dilynol. Os byddwch yn cyrraedd y rhestr fer am gyfweiliad, bydd eich darpar gyflogwr yn gofyn cwestiynau i helpu i ganfod ym mha fodd y byddwch chi'n cyflawni'r gofynion o ran rhinweddau hanfodol y swydd hon.

Rhinwedd Hanfodol	Disgrifiad	Tystiolaeth o hynny
Uchelgais	Ymrwymiad i sicrhau y caiff y gwasanaethau y byddwch yn eu darparu yn cael eu gwella'n barhaus, er enghraifft, gallu cynorthwyo'r unigolyn y byddwch yn ei gefnogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.	Ffurflen Gais, Cyfweiliad
Cyfathrebu	Gallu gwrandao ar y bobl y byddwch yn eu cefnogi a dangos eich bod yn deall beth fyddant yn ei gyfathrebu. Gallu cyfathrebu'n glir â'r bobl y byddwch yn eu cefnogi/.	Ffurflen Gais, Cyfweiliad
Dewrder	Gallu herio arferion gwael a rhoi gwelliannau ar waith.	Ffurflen Gais, Cyfweiliad
Cydraddoldeb	Gweithio gyda phobl sydd ag anabledd dysgu a/neu anawsterau cyfathrebu.	Ffurflen Gais, Cyfweiliad
Cyfrinachedd	Cynnal cyfrinachedd wrth ymdrin ag oedolion sy'n agored i niwed, er enghraifft, manylion ariannol a phersonol.	Ffurflen Gais, Cyfweiliad
Gwaith partneriaeth.	Gallu datblygu perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda'r bobl y byddwch yn ymwneud â hwy, yn enwedig y rhai y byddwch yn eu cefnogi, ond bydd hynny'n cynnwys eu teuluoedd, eu ffrindiau a chysylltiadau eraill hefyd, gan gynnwys gofalwyr eraill ac asiantaethau allanol gan gynnwys Dinas a Sir Abertawe.	Ffurflen Gais, Cyfweiliad

Parch	Dealltwriaeth o Gyfleoedd Cyfartal ac ymrwymiad i hynny.	Ffurflen Gais, Cyfweliad
Gonestrwydd	Gweithio'n onest ac yn ddidwyll gyda'r sawl y byddwch yn ymwneud â hwy, yn enwedig y rhai y byddwch yn eu cefnogi, ond hefyd gyda theuluoedd, gofalwyr eraill ac asiantaethau allanol, yn cynnwys Dinas a Sir Abertawe.	Ffurflen Gais, Cyfweliad
Gwaith tîm	Y gallu i weithio fel rhan o dîm.	Ffurflen Gais, Cyfweliad
lechyd a Diogelwch	Sicrhau y byddwch yn cydymffurfio â deddfwriaeth lechyd a Diogelwch ym mhob agwedd o'ch gwaith, i sicrhau eich diogelwch eich hun a diogelwch pawb y byddwch yn dod i gysylltiad â hwy.	